Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
Andrew Green
Prif Weithredwr/Chief Executive:
Dr Ioan Matthews

Ffôn/Phone:
01267 610400
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd, 2015/16

Dyddiad: 18 Rhagfyr 2014

Cyfeirnod: 14/05

At: Penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, Penaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru sy'n darparu addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol gan y Cyngor Cyllido, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol

Ymateb Erbyn: Nid oes angen ymateb

Cyswllt: Dr Dylan Phillips – d.phillips@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys penderfyniadau'r Coleg ar swyddi i'w cyllido drwy'r Cynllun Staffio Academaidd i gychwyn yn 2015/16.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyron/

Dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd

Cefndir

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau'r swyddi academaidd a fydd yn cael eu cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] o 2015/16.

2. Gwahoddwyd ceisiadau i'r Cynllun Staffio Academaidd mewn cylchlythyr a gylchredwyd i'r sefydliadau ar 19 Medi 2014 (Cyf 14/02), gyda'r dyddiad cau ar 21 Tachwedd. Ystyriwyd y ceisiadau ar 3 Rhagfyr 2014 gan bedwar aelod o Banel Grantiau'r Coleg, sef yr Athro Emeritws Ceri Davies, yr Athro Jane Aaron, Dr Haydn Edwards a Gwerfyl Pierce Jones.

3. Mae penderfyniad Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn derfynol.

4. Trefnir cyfarfodydd unigol gyda'r sefydliadau yn ystod Ionawr a Chwefror 2015 er mwyn trafod unrhyw amodau sydd i'w gosod gan y Coleg. Bydd y Coleg hefyd yn medru darparu adborth ar geisiadau aflwyddiannus yn y cyfarfodydd hynny.

Cynllun Staffio Academaidd

5. Ar gyfer 2015/16 gofynnwyd i sefydliadau ddangos, ymhob achos, sut yr oedd eu cais (i) yn gyson â'r Cynllun Academaidd a gyhoeddwyd gan y Coleg ym Medi 2012, a (ii) yn gyson â'r Cynlluniau Datblygu pynciol perthnasol. Gwahoddwyd ceisiadau mewn meysydd ble mae potensial mesuradwy i ddatblygu'r ddarpariaeth a'r niferoedd sy'n astudio yn Gymraeg yn sylweddol, ond pwysleisiwyd y rhoddid blaenoriaeth i'r swyddi hynny sydd wedi eu dynodi yn glir mewn Cynllun Datblygu pynciol.

6. Gofynnwyd i'r sefydliadau hefyd i restru'r ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth. Bwriad hyn oedd rhoi gwell dealltwriaeth i'r Coleg o safbwynt y sefydliadau parthed gwerth strategol cymharol y gwahanol geisiadau. Nid oedd y Coleg, fodd bynnag, yn ymrwymo i gyllido swyddi yn unol ag unrhyw restrau blaenoriaeth a gyflwynwyd.

7. Ystyriwyd y ceisiadau yn ofalus yn unol â gofynion strategol y Coleg sydd, drwy'r Cynllun Academaidd a'r Cynlluniau Datblygu pynciol, yn hyrwyddo gweledigaeth

bwrpasol a chydlynus ar gyfer cynllunio a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol.

8. Bydd angen trafodaeth lawn a manwl rhwng swyddogion y Coleg a'r sefydliadau **ym mhob achos** cyn bod unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd gan y sefydliadau. Bydd y Coleg yn cysylltu â'r sefydliadau yn y flwyddyn newydd i drefnu cyfarfodydd i drafod y manylion hyn.

9. Rhestrir yn **Atodiad A** y swyddi a ddyfarnwyd i'w cyllido. **Bydd y Coleg yn nodi amodau penodol ar gyfer nifer o'r dyfarniadau a bydd cyllido'r swyddi hyn yn amodol ar barodrwydd y sefydliad(au) perthnasol i gytuno â'r amodau.**

10. Mae tair swydd arall yn ychwanegol at y rheini a restrir yn Atodiad A yn dal i fod dan drafodaeth, ac mae'r Coleg eisoes wedi cysylltu gyda'r sefydliadau perthnasol er mwyn cychwyn ar y trafodaethau hynny.

11. Ym mhob achos, bydd cytundeb cyllido unigol yn cael ei baratoi yn nodi'r amodau ar gyfer pob swydd, a chaiff y targedau yn y cytundebau hynny eu monitro a'u hadolygu'n flynyddol. Bydd rhaid i raglenni gwaith a swydd-ddisgrifiadau pob swydd unigol gael eu cymeradwyo **cyn** i'r swyddi hynny gael eu hysbysebu. Bydd y Coleg yn drafftio cytundebau cyllido, yn cynnwys targedau, yn seiliedig ar y ceisiadau a gyflwynwyd ac unrhyw amodau neu faterion eraill a godwyd yn ystod y broses ddyfarnu. Bydd yr holl swyddi hefyd yn cael eu cyllido ar sail yr amodau cyffredinol a oedd wedi eu nodi yn y cylchlythyr yn gwahodd ceisiadau.

12. Yn amodol ar sefyllfa gyllidol y Coleg yn y dyfodol, caiff yr holl swyddi a restrir yn Atodiad A eu cyllido am gyfnod o hyd at bum mlynedd, sef hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hynny ar hyn o bryd. Os, am ba bynnag reswm, na fydd modd i'r Coleg barhau i gyllido'r swyddi am y pum mlynedd llawn, y sefydliad sydd yn cyflogi'r aelod staff fydd yn gyfrifol am unrhyw ymrwymiadau cytundebol. Yn yr un modd, y sefydliad sydd yn gyfrifol petai'r Coleg, am ba bynnag reswm, yn terfynu'r grant ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, neu cyn hynny.

Camau nesaf

13. Mae'r Coleg yn dymuno sicrhau bod y swyddi a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio yn cael eu llenwi mewn da bryd fel bod yr aelodau staff yn ymgymryd â rhaglen ddysgu mor llawn â phosibl yn 2015/16.

14. Dylai pob swydd a gyllidir gael ei llenwi erbyn **29 Mai 2015** a dylai'r dyddiad cychwyn fod cyn neu ar 1 Medi 2015. Gorau oll os oes modd i benodiad gychwyn cyn gynted â phosibl er mwyn cyflawni rhaglen ddysgu llawn ym mlwyddyn academaidd 2015/16.

15. Bydd y Coleg yn rhoi arweiniad ar y dull priodol o hysbysebu'r swyddi. Fel arfer, bydd y swyddi yn cael eu hysbysebu'n agored yn y wasg, a bydd y Coleg yn cyhoeddi ei hysbysebion ei hun yn y wasg genedlaethol Gymraeg. Oni anrhydeddir yr amodau yma, ni fydd y Coleg yn cymeradwyo'r penodiad.

16. Y sefydliadau fydd yn gyfrifol am lenwi'r swyddi a ddyfernir ac am benodi ymgeiswyr cymwys. Fodd bynnag, bydd y Coleg yn penodi cynrychiolydd a fydd yn aelod llawn o bob panel penodi, a disgwylir i bob cyfweliad ateb gofynion y Coleg yn ogystal â'r ddisgyblaeth academaidd. Bydd y Coleg yn trafod y drefn benodi ar gyfer pob swydd gyda'r brifysgol berthnasol, ond disgwylir i'r cyfweliadau ym mhob achos gael eu cynnal yn Gymraeg (gyda chefnogaeth cyfieithu-ar-y-pryd, os oes angen).

17. Bydd y Coleg yn darparu rhestr wirio y dylid ei defnyddio mewn perthynas â phob cyfweliad a gynhelir ar gyfer unrhyw swydd a gyllidir drwy'r Cynllun Staffio. Mae'r Coleg yn cydnabod fod gwahaniaethau rhwng systemau adnoddau dynol y gwahanol sefydliadau ond yn dymuno cael sicrwydd fod rhai trefniadau cyffredin wedi eu dilyn ymhob achos.

18. Bydd pob penodiad yn amodol ar lenwi ffurflen enwebu a derbyn cymeradwyaeth y Coleg cyn i'r swydd gael ei chynnig yn ffurfiol.

19. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i sicrhau bod asesiad o anghenion hyfforddiant mewn sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei gynnal cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau. Mae'n

bosibl y bydd gofyn i ddeiliaid ymgymryd â chwrs hyfforddiant pellach, e.e. hyfforddiant gloywi iaith, er mwyn cryfhau eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

20. Gofynnir i'r sefydliadau sicrhau bod y swyddi wedi eu hysbysebu, a'r cyfweliadau wedi eu cynnal, ymhob achos, **erbyn 29 Mai 2015 fan bellaf**. Disgwylir i ddeiliaid y swyddi a'r sefydliadau lenwi Ffurflen Enwebu ar gyfer pob dyfarniad o'r Cynllun Staffio **erbyn 12 Mehefin 2015**.

21. Ni fydd y Coleg yn caniatáu unrhyw eithriadau i'r amserlen uchod. Pe na lwyddir cwblhau'r broses benodi ac enwebu oddi fewn i'r amserlen uchod, fe fydd y dyfarniad yn cael ei atal.

ATODIAD A

Swyddi Academaidd i'w cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2015/16

Maes / Disgyblaeth	Sefydliad
Busnes a Rheoli	Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru
Economeg	Prifysgol Bangor
Fferylliaeth	Prifysgol Caerdydd
Gwyddorau Gofal Iechyd	Prifysgol Caerdydd
Therapi Iaith a Lleferydd	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Celf a Dylunio	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Biomilfeddygaeth	Prifysgol Aberystwyth
Gwyddor Amgylcheddol	Prifysgol Aberystwyth
Sŵoleg	Prifysgol Bangor
Amaethyddiaeth (Gwyddorau Biolegol)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Coleg Sir Gâr)
Polisi Cymdeithasol Cymhwysol	Prifysgol Bangor
Biofeddygaeth	Prifysgol Abertawe
Meddygaeth (Darlithydd Clinigol)	Prifysgol Caerdydd
Peirianneg	Prifysgol Abertawe
Seicoleg	Prifysgol Bangor